OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2011 Rhif 2082 (Cy. 222)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Llandybïe, Sir Gaerfyrddin) (Terfyn Cyflymder 10 mya Dros Dro a Dim Goddiweddyd) 2011

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *22 Awst 2011* |
| *Yn dod i rym* | *1 Medi 2011* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Abertawe - Manceinion (yr A483) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig neu ei wahardd ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Medi 2011 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Llandybïe, Sir Gaerfyrddin) (Terfyn Cyflymder 10 mya Dros Dro a Dim Goddiweddyd) 2011.

**2.** —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" *("exempted vehicle")* yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer y gwasanaethau brys, neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "y darn o'r gefnffordd" *("the length of the trunk road")* yw'r darn o gefnffordd yr A483 yn Llandybïe yn Sir Gaerfyrddin sy'n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â Ffordd Glynhir i ganolbwynt ei chyffordd â Ffordd Pentregwenlais;

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw'r cyfnod sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 1 Medi 2011 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi eu tynnu oddi yno'n barhaol.